Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dafydd Llwyd
# Plantation Lane
# Powys
# Y Drenewydd
# SY16 1JE

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Dafydd Llwyd

Lleolir Ysgol Dafydd Llwyd yn y Drenewydd, yn awdurdod lleol Powys. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae 168 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref neu sydd o gartrefi lleiafrifol ethnig. Dros dreigl tair blynedd, tua 9% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol (19%). Mae'r ysgol wedi adnabod tua 16% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (21%).

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2005 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gweledigaeth gadarn y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o ansawdd uchel er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd hyd eithaf ei allu. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae'r Gymraeg yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol ac mae gan y disgyblion falchder yn yr iaith ac yn eu Cymreictod. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn ac maent yn awyddus iawn i ddysgu. Mae'r athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion, ac mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i gefnogi anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr ethos gofalgar a theuluol sy'n bodoli yno.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau sillafu Saesneg disgyblion cyfnod allweddol 2

A2 Gwella safon cyflwyniad ychydig o ddisgyblion ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Dros gyfnod, mae medrau rhan fwyaf y disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn isel. Yn ystod eu hamser yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn. Mae'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd effeithiol tuag at eu targedau.

Mae medrau llafar a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gadarn. Mae ganddynt eirfa eang ac maent yn defnyddio cystrawen naturiol wrth siarad. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn esbonio'r hyn maent yn ei wneud yn glir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol yn y ddwy iaith. Maent yn gwrando'n ofalus ar safbwyntiau eraill ac yn trafod testunau amrywiol yn aeddfed. Maent yn defnyddio geirfa raenus wrth sgwrsio am eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn mwynhau darllen ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Mae'r rhan fwyaf yn y cyfnod sylfaen yn darllen yn ystyrlon a chyda rhugldер, gan fynegi barn yn glir am eu hoff lyfrau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda dealltwriaeth dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn mynegi barn am lyfrau ac yn disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad digwyddiadau o fewn straeon yn ystyrlon. Defnyddiant eu medrau darllen yn llwyddiannus i gywain gwybodaeth a'i chyflwyno mewn modd diddorol. Mae rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau trawsieithu'n hyderus wrth wneud gwaith ymchwil.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos datblygiad parhaus o ran medrau ysgrifennu cynnar. Maent yn defnyddio geirfa addas a diddorol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Maent yn cynllunio portreadau atyniadol ac yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau addas. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen glir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Maent yn ysgrifennu'n drefnus ac yn cyflwyno syniadau a gwybodaeth yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu darnau llwyddiannus ar hanes y Titanic ac ar losgfynyddoedd. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ysgrifennu darnau estynedig da ar y cyn arlywydd, Barack Obama. Mae gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ansawdd gwaith ysgrifenedig estynedig y goreuon o ansawdd uchel, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu ar y thema Cymru Fach a'r bardd Hedd Wyn. Fodd bynnag, mae safonau sillafu disgyblion yn y Saesneg yn amrywio ar adegau ac nid yw cyflwyniad gwaith ychydig ar draws yr ysgol bob amser yn daclus.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio ystod o fedrau rhif yn hyderus ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth fesur tymheredd. Mae'r rhan fwyaf yn casglu, cyflwyno a dadansoddi gwybodaeth wrth greu tabl a llunio graff bar syml i gofnodi lliwiau gwahanol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhifedd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn datrys problemau yn effeithiol, er enghraifft wrth ddadansoddi data sy'n gysylltiedig â gwersyll yr Urdd neu gyfandiroedd eraill. Mae gan lawer o

ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o arian, er enghraifft wrth gynllunio taith siopa i sicrhau'r gwerth gorau. Mae safonau mathemateg pen yn datblygu'n dda ac mae gan y disgyblion hŷn wahanol ffyrdd o luosi, gan gynnwys dulliau Siapaneaidd. Mae'r rhan fwyaf yn trosglwyddo'u medrau rhifedd yn effeithiol i feysydd eraill, er enghraifft wrth astudio curiad y galon mewn gwyddoniaeth.

Mae medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn creu lluniau ac yn cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn llwyddiannus. Maent yn cyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau syml yn gywir, er enghraifft wrth gyfleu eu hoff anifail yn sŵ Caer. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso'u medrau TGCh yn llwyddiannus i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio apiau rhif amrywiol, yn paratoi erthyglau i'w cynnwys yn y papur bro lleol ac yn creu ffilmiau byr gan ddefnyddio sgrin werdd. Ym Mlwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cywain gwybodaeth o'r we yn ddiogel ac yn anfon e-byst at eu ffrindiau fel rhan o'u gwaith thema. Mae llawer yn dechrau defnyddio fformiwlâu syml i drefnu data yn llwyddiannus.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r berthynas waith sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r staff yn nodwedd gref yn yr ysgol ac yn sylfaen gadarn ar gyfer cynnal ethos gofalgar a chefnogol. Mae gan ddisgyblion lefel uchel o ymddiriedaeth yn y staff ac maent yn gwybod y byddant yn gwneud eu gorau drostynt. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol, yn deall beth i'w wneud os bydd unrhyw beth yn eu poeni ac yn teimlo'n hollol ddiogel yno. Er enghraifft, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch a chwrteisi tuag at eraill mewn gwersi, ar y buarth ac yn y neuadd ginio.

Mae bron pob disgybl yn deall sut i yfed a bwyta'n iach ac maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn gyson, er enghraifft drwy gystadlu yn y clybiau chwaraeon ac mewn gemau ag ysgolion cyfagos. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i fynd ar deithiau preswyl, er enghraifft i Langrannog a Llundain, ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol.

Mae bron pob disgybl yn siarad gyda balchder am eu hysgol. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd rheolaidd mae'r staff yn darparu iddynt i fynegi barn ac i ddatblygu'n ddinasyddion cydwybodol. Mae llawer ohonynt yn derbyn cyfrifoldebau ar amryw o bwyllgorau. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol, y cyngor eco, ffrindiau ffyddlon, y criw Cymraeg a'r llysgenhadon yn cyfrannu'n fuddiol i fywyd yr ysgol ac yn sicrhau bod eu cyfoedion yn derbyn gwybodaeth am faterion pwysig sydd yn effeithio arnynt. Er enghraifft, mae'r Llysgenhadon Chwaraeon yn trefnu gweithgareddau chwaraeon i'r disgyblion yn ystod yr awr ginio bob wythnos. Mae'r disgyblion hefyd yn codi arian ar gyfer elusennau gwahanol ac yn cymryd rhan yn gyson yng ngweithgareddau'r Urdd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n llwyddiannus yn unigol, mewn parau a grwpiau. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig ac mae gan bron pob disgybl ymagweddau cadarnhaol at ddysgu. O oed cynnar, maent yn datblygu dealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith trwy drafod meini prawf llwyddiant, er enghraifft ar ôl dadansoddi data yn ymwneud â gwersylloedd yr Urdd.

Mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o degwch a chyfle cyfartal. Maent yn sensitif iawn i anghenion disgyblion eraill ac yn deall pwysigrwydd cynaliadwyedd. Er enghraifft, gallant egluro arwyddocâd masnach deg yn llwyddiannus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda, gydag elfennau rhagorol mewn lleiafrif o ddosbarthiadau. Mae'r holl athrawon yn darparu gweithgareddau addysgu cyffrous sy'n ennyn diddordeb a brwdfrydedd disgyblion yn effeithiol iawn. Maent yn cynllunio'n ofalus ac yn ystyried diddordebau disgyblion wrth greu themâu dosbarth. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cael cyfrannu eu syniadau nhw yn eu hastudiaethau o'r Gymanwlad a thrychinebau. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn sicrhau cyflymdra da yn y gwersi ac yn paratoi tasgau heriol ar gyfer y disgyblion. Mae gan bob aelod staff ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion ac maent yn creu ethos adeiladol yn y dosbarthiadau sy'n hybu hunan-barch a hyder dysgwyr yn llwyddiannus iawn. Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd yr addysgu, ac ynghyd â'r athrawon, yn defnyddio cwestiynau agored yn effeithiol iawn i ddatblygu medrau meddwl disgyblion.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Maent yn asesu gwaith disgyblion yn gywir ac yn gwneud defnydd da o'r asesiadau i osod targedau ar eu cyfer. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwybod eu targedau'n dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae gweithdrefnau addas ar waith i alluogi'r disgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol a chyfoethog iawn sy'n gwella dysgu disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynllunio gweithgareddau ar gyfer disgyblion o wahanol alluoedd yn drwyadl ac yn sicrhau lefel briodol o her iddynt. Maent yn cynllunio'n benodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl disgyblion gan ddarparu ystod o gyfleoedd iddynt eu datblygu drwy themâu a thestunau cyfredol, fel y ffordd osgoi yn y Drenewydd. Darperir ystod dda o weithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion, gan gynnwys clybiau mabolgampau a chlwb côd TGCh. Mae'r rhain yn cyfoethogi'r cwricwlwm a'r profiadau dysgu iddynt yn llwyddiannus.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio'r ardaloedd allanol i ymestyn y dysgu'n llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio'r ardal allanol yn effeithiol i ddatblygu eu dealltwriaeth o gadwyni bwyd. Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau ffocws a pharhaus diddorol i alluogi'r disgyblion i ymchwilio, chwarae rôl ac ymarfer eu medrau personol yn rheolaidd.

Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli yn yr ysgol ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn gadarn iawn. Mae datblygiad y Siarter Iaith yn sicrhau balchder disgyblion yn eu hiaith a'u gwlad. Mae'r holl staff yn manteisio ar gyfleoedd i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ehangu eu medrau llafar. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol ac mae eu medrau dwyieithrwydd yn datblygu'n gadarn.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus i sicrhau bod disgyblion yn cael ystod o gyfleoedd i ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Maent yn cynnwys astudio awduron, arlunwyr a chyfansoddwyr sy'n Gymry. Nodwedd gref iawn o'r ddarpariaeth yw'r cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu am yr ardal leol, er enghraifft wrth astudio hanes Cytundeb Trefaldwyn. Yn ogystal, maent yn cael cyfleoedd buddiol iawn i gyfrannu at wahanol ddigwyddiadau yn y gymuned, fel 'Dewch i Ddathlu Cymreictod yn ardal y Drenewydd'. Mae'r disgyblion yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ac eisteddfodau lleol yn gyson. Mae hyn yn cyfoethogi eu gwybodaeth am eu hunaniaeth ac yn codi eu hyder yn llwyddiannus.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ac mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn effeithiol i adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Mae'r athrawon yn darparu cynlluniau addysg unigol priodol i'r rheini sydd eu hangen ac yn cynnwys y rhieni a'r disgyblion yn addas wrth eu llunio a'u hadolygu. Mae'r athrawon yn cynllunio'r camau nesaf i'r disgyblion yn ofalus ac yn darparu rhaglenni ymyrraeth pwrpasol ar gyfer y rheini sydd eu hangen.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o faterion yn ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwyedd yn llwyddiannus drwy waith y pwyllgor eco a themâu ysgogol. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o anghenion gwledydd eraill yn y byd hefyd yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gwahodd ymwelwyr i siarad â'r disgyblion am anghenion, bywyd a thraddodiadau Uganda ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ymchwilio i wledydd y Gymanwlad.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwrtais, yn gwrando ar ei gilydd ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda iawn. Mae ethos o barch yn amlwg ymhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyson ar draws y cwricwlwm i alluogi disgyblion i ehangu eu dealltwriaeth o hawliau dynol. Maent yn hybu gwrth-hiliaeth, cyfle cyfartal a hawliau plant yn llwyddiannus drwy ddefnyddio ystod o raglenni effeithiol.

Mae medrau creadigol y disgyblion yn cael eu datblygu'n effeithiol iawn. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyson i gystadlu mewn eisteddfodau a pherfformio mewn cyngherddau yn ystod y flwyddyn. Mae'r murluniau a'r arddangosfeydd lliwgar ar draws yr ysgol yn dathlu llwyddiannau celf y disgyblion yn effeithiol iawn. Mae esiampl nodweddiadol o hyn yn cynnwys lluniau atyniadol mae'r disgyblion yn eu cynhyrchu yn arddull Kyffin Williams.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref gyda'r rhieni. Maent yn cwrdd yn rheolaidd â'r athrawon ac yn derbyn gwybodaeth fanwl am gynnydd a chyflawniad eu plant. Mae'r ysgol yn rhoi cymorth a chyfarwyddiadau iddynt ar sut i gefnogi eu plant, er enghraifft gyda'u medrau darllen. O ganlyniad, maent yn gwybod beth sydd angen i'w plant ei wneud i ddatblygu eu medrau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn a chlir sy'n seiliedig ar godi safonau a hybu lles a Chymreictod disgyblion. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon gyda'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yn hynod lwyddiannus. Mae'r uwch dîm rheoli ac aelodau'r staff yn cydweithio'n hwylus, yn cyflawni eu rolau yn effeithiol ac yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae'r staff yn gweithredu strategaethau bwriadus i ddatblygu medrau'r disgyblion yn llwyddiannus. Enghraifft nodweddiadol o'u llwyddiant yw'r modd y maent yn gweithredu egwyddorion y Siarter Iaith. O ganlyniad, mae medrau llythrennedd Cymraeg y disgyblion yn gadarn dda, ac mae eu balchder at yr iaith a'u treftadaeth yn ardderchog.

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol wedi eu seilio'n gadarn ar ystod o dystiolaeth uniongyrchol. Trwy arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a chynnal teithiau dysgu bwriadus, mae gan y staff ddealltwriaeth drwyadl o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r arweinwyr yn casglu barn y disgyblion ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau. Mae'r clybiau drama a gwyddbwyll yn enghreifftiau da o sut mae llais y disgybl yn cyfrannu at ddarpariaeth yr ysgol. Mae cyswllt agos rhwng blaenoriaethau gwella'r ysgol a chanfyddiadau hunanarfarnu. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys nifer hylaw o flaenoriaethau i'w cyflawni a dangosyddion llwyddiant mesuradwy. Mae'r trefniadau monitro effeithiol yn cyfrannu'n bwrpasol at sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'n broffesiynol, er enghraifft trwy rannu arfer dda i gynllunio tasgau ysgogol ar gyfer y disgyblion. O ganlyniad, mae'r tasgau'n ennyn diddordeb bron pob disgybl ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r gwaith tîm sy'n bodoli ymhlith holl aelodau'r staff yn gryfder yn yr ysgol. Maent yn rhannu arfer dda yn gyson er mwyn cynyddu eu gwybodaeth a'u medrau proffesiynol. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth yn gadarn dda ar draws yr ysgol.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio'u hadnoddau yn effeithiol. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli'r cyllid yn ofalus ac yn monitro effaith gwariant ar ddeilliannau'r disgyblion yn briodol. Mae'r gwariant yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol, gan gynnwys y defnydd o grantiau penodol. Mae'r gefnogaeth i rai grwpiau o ddisgyblion penodol yn llwyddo i leihau effaith tlodi ar eu cyrhaeddiad a'u cynnydd. Er enghraifft, gwneir defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i wella medrau rhifedd a llythrennedd y disgyblion sy'n deilwng i'w dderbyn.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at y weithdrefn hunanarfarnu, trwy wrando ar ddisgyblion, cynnal teithiau dysgu, dadansoddi data a chraffu ar lyfrau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn fedrus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2018